

Pa mor effeithlon mae'r llu ynghylch cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd?

Trosolwg

Dyfernir bod Heddlu Dyfed-Powys angen gwella pa mor effeithlon ydyw wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Mae ein dyfarniad cyffredinol eleni yr un fath â'r llynedd. Dyfernir bod dealltwriaeth yr heddlu o alw yn dda; asesir bod angen iddo wella ei ddefnydd o adnoddau i reoli galw; a dyfernir bod angen gwella ei waith cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol.

Mae angen i Heddlu Dyfed-Powys wella pa mor effeithlon ydyw yn gyffredinol wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd, er bod rhai agweddau ar waith yr heddlu sy'n cael eu rheoli'n dda, megis ei ddealltwriaeth o alw. Mae gan yr heddlu brosesau a systemau wedi'u sefydlu'n dda sy'n ei alluogi i fonitro a deall galw presennol, gan gynnwys galw na chaiff ei adrodd o bosibl. Mae'n defnyddio'r ddealltwriaeth hon i symud adnoddau i'r lleoedd y mae eu hangen fwyaf. Mae arweinwyr yr heddlu hefyd yn dda am hyrwyddo meddwl yn arloesol i leihau galw, ac yn defnyddio technegau gwella parhaus yn effeithiol, gan nodi arferion gwastraffus ac aneffeithiol.

Mae angen i Heddlu Dyfed-Powys wella'r ffordd mae'n defnyddio ei adnoddau. Nid yw'r heddlu wedi cynnal archwiliad sgiliau i ddeall capasiti na gallu ei holl bobl. Byddai archwiliad o'r fath yn helpu'r heddlu i lywio ei brosesau recriwtio, dewis a hyrwyddo er mwyn nodi'r bobl orau ar gyfer y swydd a datblygu pobl yn eu rolau. Mae hefyd angen i'r heddlu wella'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, mae angen i'r heddlu wneud defnydd gwell o gynlluniau recriwtio a datblygu cenedlaethol, recriwtio allanol, a chyfleoedd recriwtio eraill i sicrhau ei fod yn gallu recriwtio, hyrwyddo a datblygu pobl gyda'r sgiliau sydd eu hangen arno. Yn ogystal, mae angen i'r heddlu ddatblygu gweledigaeth integredig ar gyfer y dyfodol sy'n ystyried disgwyliad cyhoeddus, technoleg sy'n newid, gallu i ryngweithredu â gwasanaethau brys eraill a'r adnoddau sydd ar gael i'w bartneriaid. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r heddlu wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu dull mwy strategol tuag at weithio mewn partneriaeth. Mae hefyd wedi buddsoddi'n dda mewn TGCh, sydd wedi arwain at arbedion sylweddol a llai o alw mewn nifer o ardaloedd.